Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd ar Nos Lun 20fed Mai 2024 am 7.40 y.h. yn Neuadd Lisburne Llanafan .
Minutes of Trawsgoed Community Council held on Monday 20th May, 2024 at 7.40 p.m. held at Lisburne Hall, Llanafan.

**Presennol/Present**: Cyng./Cllr. E. Lewis (Cadeirydd / Chairman)
Cyng./Cllr. P. Bonner, Cyng./Cllr. A. Davies, Cyng./Cllr. Sh. Edwards, Cyng./Cllr. A. Evans, Cyng./Cllr. C. Lloyd-Morgan Cyng./Cllr. A. Richards.
Cynghorydd Sir/County Councillor Meirion Davies.

**Ymddiheuriadau / Apologies**: Cyng./Cllr. M. Davies, Cyng./Cllr. P. Davies

Un aelod o'r Cyhoedd / One Member of the Public.

| | | |
|---|---|---|
| 7 | **Materion Personol** | **Personal Matters** |
| 8. | **Datgelu Buddiannau Personol**<br>Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb wrth drafod eitemau. | **Disclosure of Personal Interest**<br>Members were reminded to declare an interest when discussing items. |
| 9. | **Asesiad Risg ac Asedau**<br>Nid oedd materion yn codi o ran yr Asedau. | **Risk and Asset Assessment**<br>There were no matters arising regarding Assets. |
| 10. | **Cofnodion Cyfarfod Diwethaf**<br>Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion yr 8fed Ebrill 2024.<br>Cynigiwyd cywirdeb gan Cyng. A. Evans ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd-Morgan. | **Minutes of the Last Meeting**<br>The minutes of the 8th April, 2024 were confirmed and accepted, proposed by Cllr. A. Evans and seconded by Cllr. C. Lloyd-Morgan. |
| 11. | **Materion yn Codi o'r Cofnodion**<br>Nifer o faterion hanesyddol angen sylw, Cyngor Sir Ceredigion wedi cydnabod derbyn gwybodaeth am y materion, bydd angen aros i'r gwaith eu cwblhau gan dynnu sylw'r Cyngor Sir at y materion yn achlysurol os na byddant wedi gweithredu arnynt. | **Maters Arising from the Minutes**<br>A number of historical issues needing attention, Ceredigion County Council has acknowledged the reporting of these matters, it will be necessary to wait for the work to be completed and occasionally bring the issues to the attention of the County Council if they have not been acted upon. |
| 12. | Tir lithriad ger ochr yr Afon Ystwyth tu cefn i Abermagwr. Derbyniwyd ymateb gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn nodi mai cyfrifoldeb y tir feddianwr yw gweithredu ar y mater hyn. Ymholiadau i'w gwneud o pwy yw'r perchenog tir. | Landslide near the side of the River Ystwyth behind Abermagwr. A response was received from Natural Resources Wales stating that it is the responsibility of the land owner to act on this issue. Enquires to be made of the land owner. |
| 13. | Gŵyl Tan ar y Mynydd.<br>Derbyniwyd sylwadau gan aelodau'r cyhoedd am y materion isod gan drosglwyddo'r pryderon i Gyngor Sir Ceredigion. | Fire in the Mountain Festival.<br>Concerns received from members of the public regarding the following which will be transferred to Ceredigion County Council. |

| | | |
|---|---|---|
| | Trefnwyr yr Ŵyl yn bwriadu chwarae cerddoriaeth uchel tan 3.00 o'r gloch y bore fydd yn amharu ar drigolion lleol; | Festival organisers intend for loud music to be played until 3.00pm in the morning which will impact local residents; |
| | clawdd ymyl y ffordd cae yr Wyl wedi gordyfu'n sylweddol sy'n achosi risg diogelwch i gerbydau a cherddwyr; | The roadside hedge of the Festival field is significantly overgrown which poses a safety risk to vehicles and pedestrians; |
| | consyrn fod yna ddau ddigwyddiad fawr drws nesaf i'w gilydd ar yr un pryd a fydd yn achosi problemau trafnidiaeth yn yr ardal; | concern that there are two major events next door to each other at the same time that will cause transport problems in the area; |
| 14. | Arolwg o'r Trefniadau Cymunedol ar Gyfer Cyngor Sir Ceredigion<br>Danfonwyd ymateb o wrthwynebiad i'r argymhellion o fewn yr ymgynghoriad gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru sy'n argymhell uno Cyngor Bro Llanilar a Chyngor Bro Trawsgoed. | Review of Community Arrangements of The County Of Ceredigion.<br>Objections were sent to the Consultation Document from the Boundary and Local Democracy Commission for Wales which recommended the merger of Llanilar Community Council Council and Trawsgoed Community Council. |
| 15. | Coed hanesyddol wedi eu torri ar ochr ffordd gyhoeddus o fewn yr Ardal.<br>Ymateb a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ceredigion yn nodi nad yw'r coed dan sylw yn destun Gorchymyn Cadw Coed ac nad ydynt o fewn Ardal Gadwraeth felly nid oes gofyniad cyfreithiol ar y tirfeddiannwr i hysbysu Cyngor Sir Ceredigion am unrhyw waith ar y safle. Os teimlid bod adar yn nythu o fewn y coed gallai'r weithredo o gwympo'r coed ddod o dan Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ac felly'r Heddlu fyddai'r awdurdod adrodd yn ogystal â CNC pe bai nifer sylweddol o goed wedi'u cwympo. | Historic trees had been felled on the side of a public road within the Ward. Response received from Ceredigion County Council noting that the trees in question are not subject to a Tree Preservation Order and are not within a Conservation Area therefore there is no legal requirement for the landowner to notify Ceredigion County Council of any work on site. If it was felt that there were nesting birds within the trees the felling could come under the remit of the Wildlife and Countryside act 1981 and therefore the Police would be the reporting authority as well as NRW if there was a significant amount of trees felled. |
| 16. | **Materion Cyllidol** | **Finance** |
| 17. | **Rhoddion**: Yn dilyn hysbysu'n y gymuned ac ar y we am geisiadau am nawdd ariannol o'r Cyngor Bro ac amodau Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwariant Adran 137 trafodwyd a chytunwyd ar y cyfraniadau canlynol: | **Donations**: Following placing a notice in the community and on the website inviting applications for funding from the Community Council and conditions Section 137 (4) (a) of the Local Government Act 1972 Section 137 the following were discussed and agreed upon: |
| 18. | £500.00 Cymdeithas Maes Chwarae MaesyFelin, Llanafan tuag at cost yr yswiriant.<br>Cynigiwyd y swm gan Cyng. C. Lloyd-Morgan ac eiliwyd gan Cyng. P. Bonner. | £500.00 Maesyfelin Playing Fields, Llanafan towards the cost of Insurance.<br>Proposed by Cllr. C. Lloyd-Morgan, seconded by Cllr. P. Bonner. |

| | | |
|---|---|---|
| 19. | **Derbyniadau:** | **Receipts:** |
| 20. | £1,733.33 Rhanddaliad 1 allan o 3 o Praesept 2024/25 a dderbyniwyd ar 30ain o Ebrill 2024. | £1,733.33 Instalment 1 of 3 of the 2024/25 Precept received on 30th April 2024. |
| 21. | **Talu Anfonebau:** | **Payment of invoices** |
| 22. | £460.02 Zurich Insurance: Adnewyddu Yswiriant am 2024/25. Cynigiwyd gan Cyng. Sh. Edwards ac eiliwyd gan Cyng.A. Richards. | £460.02 Zurich Insurance: Renewal of Insurance for 2024/25. Proposed by Cllr. Sh. Edwards and seconded by Cllr. A. Richards. |
| 23. | **Ystyried dogfen taliadau i Gynghorwyr y Cyngor Bro**<br>Ystyriwyd yr adroddiad Taliad i Gynghorwyr Cymuned yn unol ag Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru am 2024/25 lle mae'r Panel wedi nodi y dylid rhoi taliad gorfodol o £156.00 i bob cynghorydd cymuned tuag at costau. Pe byddai unrhyw un o'r cynghorwyr cymuned yn dymuno gwrthod y taliad rhaid cwblhau a dychwelyd ffurflen at y Clerc sy'n nodi'r dymuniad i wrthod y taliad.<br>Trafodwyd taliadau ychwanegol y soniwyd amdanynt yn yr Adroddiad ac y medrir dyfarnu i'r Cynghorwyr:<br>Cytunwyd i beidio â dyfarnu'r symiau hyn, ond pe byddai unrhyw ddigwyddiadau penodol yn codi i ail-edrych ar pob sefyllfa'n unigol.<br>Cytunwyd hefyd i beidio â dyfarnu uwchdaliadau swyddi penodol i'r Cynghorwyr. | **Consideration of document of payments to Community Councillors.**<br>The report Allowance for Community Councillors in accordance with the Independent Remuneration Panel for Wales' Annual Report 2024/25 was considered where the Panel has noted that a mandatory payment of £150.00 should be given to all Community Councillors toward expenses. If any of the Community Councillors wish to decline the payment they must complete and return a form to the Clerk noting their refusal of the payment. Additional Allowances mentioned in the report which can be paid to Community Councillors was discussed and it was resolved not to allocate these payments although matter to be re-discussed should individual circumstances arise. It was also resolved not to allocate senior payments for specific roles to Councillors. |
| 24. | **Gohebiaeth** | **Correspondence** |
| 25. | **Ceisiadau Cynllunio** | **Planning Applications·** |
| 26. | **Rhannu Gwybodaeth** | **Sharing of Information** |
| 27. | **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**<br>Nos Lun 24ain o Fehefin 2024 am 7.30y.h. yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn. | **DATE OF NEXT MEETING**<br>Monday 24th June, 2024 at 7.30p.m. at Llanfihangel-y-Creuddyn School. |